Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**

15/07/2020

## Trefniadau ailagor mis Medi 2020

Annwyl rieni,
Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru wythnos diwethaf, rydym wrthi yn cwblhau ein trefniadau ar gyfer ailagor yr ysgol i'r holl blant ym mis Medi.
Y disgwyliad yw y bydd pob ysgol yn agor yn llawn, i bob plentyn, o Fedi 14eg.

Serch hynny, ein bwriad ni yw ailagor yr ysgol i bob plentyn erbyn Medi 8fed. Mi fyddwn yn dychwelyd y plant yn ol yn raddol fel y ganlyn :

- Dydd Mawrth a Mercher Medi 1af ac 2il (diwrnodau cau i blant - staff i baratoi'r ysgol)
- Dydd Iau a Gwener Medi 3ydd a 4ydd -Meithrin rhan amser, Meithrin llawn amser a'r Derbyn yn dychwelyd
- Dydd Llun Medi 7fed - y plant uchod + Blynyddoedd 1,2,3 a 4.
- Dydd Mawrth Medi 8fed - y plant uchod + Blynyddoedd 5 a 6. Erbyn hyn bydd pawb yn ol yn yr ysgol.

Gan nad ydym wedi derbyn canllawiau terfynol Cyngor Sir Gaerfyrddin eto, nid yw hi'n bosibl i ni gadarnhau yr holl drefniadau. Bydd llawer o'r gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn parhau ym mis Medi gan gynnwys golchi dwylo yn aml ac amseroedd dechrau a gorffen i wahanol dosbarthiadau. NI CHANIATEIR MYNEDIAD I'CH PLENTYN TAN EU HAMSER DYNODEDIG. WRTH GYRRAEDD YR YSGOL, PEIDIWCH YMUNO A'R RHES TAN AMSER DYNODEDIG EICH PLENTYN! Rydym wedi dyrannu slotiau 10 munud i bob dosbarth ar gyfer gollwng a chasglu. Dyma i chi amseroedd gollwng a chasglu mis Medi :

- Gollwng 8:45 / Casglu 2:35 : Blwyddyn 6EZ a Blwyddyn 2 DE
- Gollwng 8:55 / Casglu 2:45 : Blwyddyn 5SR a Blwyddyn 1 CJ
- Gollwng 9:05 / Casglu 2:55 : Blwyddyn 4PF a Derbyn JW
- Gollwng 9:15 / Casglu 3:05 : Blwyddyn 3/4 (Mrs A Davies) a Meithrin Llawn amser AD
- Gollwng 9:25 / Casglu 3:15 : Blwyddyn 3 EE
- Gollwng 9:25 / Casglu 11:30 : Meithrin Rhan amser SH

Os oes mwy nag un plentyn yn y teulu, yna bydd disgwyl i chi i ollwng y plant ar yr amser cynharaf a dychwelyd i nol y plant yn ol yr amseroedd dynodedig i bob dosbarth.

Byddwn yn cyhoeddi y trefniadau llawn maes o law. Fodd bynnag dyma syniad i chi o sut byddwn yn gweithredu wedi i ni ail-agor yn Medi:
*Bydd pob dosbarth fel swigen ac ni fydd pellter cymdeithasol o 2m rhwng y disgyblion yma. Fodd bynnag, byddwn yn cadw pob dosbarth/swigen i ffwrdd o'i gilydd er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol rhwng y swigod.
*Bydd amseroedd cyrraedd a gorffen gwahanol ar gyfer grwpiau o blant.
*Bydd y plant yn golchi eu dwylo neu'n diheintio yn syth ar ôl cyrraedd.

*Bydd y plant yn golchi eu dwylo yn rheolaidd yn ystod eu hamser yn ôl yn yr ysgol.
*Ni chaniateir rhieni i mewn i adeilad yr ysgol. Bydd system unffordd o amgylch yr ysgol yn parhau
*Bydd un plentyn ar y tro yn gallu defnyddio'r toiled
*Bydd gweithdrefnau glanhau a hylendid cynhwysfawr ar waith trwy gydol y dydd - gan gynnwys glanhau arwynebau, dolenni drysau, toiledau ac ati yn ystod y dydd.
*Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio adnoddau yr ysgol, ond ni chaniateir iddynt rannu'r rhain ag eithrio'r Cyfnod Sylfaen. Ni chaniateir i'r plant ddod ag unrhyw beth o'r tŷ ac eithrio pecyn bwyd. Byddwn yn gorfodi polisi llym DIM CNAU ar safle ysgol gan fod gan un disgybl alergedd i gnau.
*O Medi 3ydd i Medi 14eg, ni fydd darpariaeth clwb brecwast na darpariaeth cinio poeth - Bydd yn rhaid i blant ddod â phecyn bwyd i'r ysgol. Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am drefniadau arlwyo wrth iddynt gael ei gyhoeddi gan Gyngor Sir Caerfyrddin dros yr wythnosau nesaf.
*Gofynnwn mai dim ond 1 rhiant sy'n gollwng ac yn casglu eu plentyn o'r ysgol. Gofynnwn ichi gadw pellter o 2m bob amser. Ni chaniateir i blant Blwyddyn 5 a 6 i gyrraedd neu i gerdded adref ar ben eu hun. Byddwn yn adolygu hwn yn ystod yr wythnosau cyntaf.
*Bydd disgwyl i blant i wisgo gwisg swyddogol yr ysgol

Mae disgwyl i bob plentyn i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi - ni fydd yr athrawon yn paratoi gwaith i unrhyw blant a fydd adref.

Edrychwn ymlaen i groesawu yr holl blant nol yn mis Medi! Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chydweithrediad.

Yn gywir,

***C Davies***
Pennaeth / *Headteacher*

CYMRU DROS HEDDWCH WALES FOR PEACE
Eco-Sgolion
International School Award
Ysgolion Iach Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire's Healthy Schools Scheme
FAIRTRADE CYFLAWNI'N DEG